# Polisi'r Comisiwn ar Fwlio

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

3 Gorffennaf 2014

**Cais am Wybodaeth.**

Yn dilyn cyfnewid negeseuon e-bost, rydym yn cydnabod derbyn cais dilys ar 6 Mehefin, a oedd yn gofyn:

1. *A oes gan y Comisiwn bolisi a gymeradwywyd ar fwlio yn y gweithle ac, os felly, pryd y cafodd y polisi ei fabwysiadu, ac a gaiff ei gyhoeddi ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol?*
2. *Rhowch fanylion am nifer y cwynion am fwlio a wnaed yn 2012-13 a 2013-14, gan staff y Comisiwn yn erbyn cyd-aelodau staff, eu rheolwyr ac unrhyw gwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad?*
3. *Faint o'r cwynion hynny, os o gwbl, sydd wedi cael eu profi, a pha gamau a gymerwyd yn erbyn y rhai a geir yn euog o fwlio e.e. rhybudd ysgrifenedig, diswyddo ac yn y blaen?*
4. *Os cafwyd unrhyw gwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad, rhowch fanylion am enwau'r Aelodau Cynulliad, a pha gamau a gymerwyd?*

Mae Polisi Urddas yn y Gweithle Comisiwn y Cynulliad yn ymdrin â bwlio, aflonyddu a gwahaniaethu yn y gweithle; lansiwyd y polisi ar 21 Mehefin 2010. Nid yw'r polisi yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol. Yn hytrach, mae ar gael ar safle mewnrwyd y Comisiwn, lle mae ar gael yn rhwydd i holl staff y Comisiwn. Mae copi ar gael yma.


dignity at work - final 21.6.10.pdf


Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 2089 8635
E-bost/Email:Buddug.Saer@wales.gov.uk


**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb 2012-2016 yn cyfeirio at werthoedd y Comisiwn a'i ymrwymiad i herio a dileu aflonyddu a gwahaniaethu.

Yn 2012-13 nid oedd dim cwynion am fwlio o dan y polisi uchod gan staff y Comisiwn. Yn 2013-14 bu llai na phum cwyn o'r fath a wnaed yn erbyn staff y Comisiwn ac Aelodau'r Cynulliad.

Oherwydd y niferoedd isel iawn dan sylw, ni allwn roi rhagor o fanylion o ran cwestiynau 2-4 yn gynwysiedig. Byddai gwneud hynny yn golygu torri amodau'r Ddeddf Diogelu Data 1998. Felly, mae'r wybodaeth wedi'i heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 40 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Gweler yr atodiad am eglurhad llawnach. Fodd bynnag, mewn ymdrech i ddarparu gwybodaeth ystyrlon ar eich cyfer, tra'n cydymffurfio â'n dyletswyddau o dan y Ddeddf Diogelu Data 1998, rydym wedi mynegi'r wybodaeth y gallwn ei datgelu ar ffurf dienw.

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan: www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Atodiad**

Mae'r wybodaeth a geisir yn dod o fewn y diffiniad o ddata personol yn y Ddeddf Diogelu Data 1998, sef:

> "data which relate to a living individual who can be identified from those data, or from those data and other information which is in the possession of, or is likely to come into the possession of, the data controller".

Felly, mae'r wybodaeth hon wedi'i heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 40(2) ac adran 40(3)(a)(i) o'r Ddeddf, lle y byddai ei datgelu yn mynd yn groes i unrhyw un o'r egwyddorion diogelu data. Yr egwyddor sy'n berthnasol ar yr achlysur hwn yw'r egwyddor diogelu data gyntaf.

Mae'r egwyddor diogelu gwybodaeth gyntaf, fel y nodir yn Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 1998, yn nodi:

> "Personal data shall be processed fairly and lawfully and, in particular, shall not be processed unless at least one of the conditions in Schedule 2 is met and, in the case of sensitive personal data, at least one of the conditions in Schedule 3 is also met."

Wrth benderfynu a fyddai'n deg datgelu, rydym wedi ystyried goblygiadau datgelu'r wybodaeth hon, disgwyliadau rhesymol yr unigolion dan sylw, a'r cydbwysedd sydd i'w daro rhwng hawliau'r unigolion ac unrhyw fudd dilys mewn perthynas â datgeliad. Ein casgliad yw y byddai'n annheg datgelu'r wybodaeth. Wrth ddod i'r casgliad hwn, rydym yn arbennig o ymwybodol bod y broses gwyno yn seiliedig ar gyfrinachedd a bod pob person sy'n rhan o'r broses yn disgwyl hynny (oni bai, wrth gwrs, bod amgylchiadau penodol yn bodoli fel y nodir yn y polisi, a gallwn gadarnhau nad oedd unrhyw nodweddion o'r fath yn perthyn i ddim o'r cwynion). Yn wir, rydym o'r farn y byddai'r broses yn dioddef pe na bai modd inni allu sicrhau cyfrinachedd (lle bo'n briodol).

Er gwaethaf ein barn ynghylch sicrhau tegwch, aethom ymlaen i drafod Atodlen 2 i Ddeddf Diogelu Data 1998. Nid oes unrhyw un o'r amodau yn Atodlen 2 yn berthnasol, heblaw paragraff 6, sy'n caniatáu i rywun brosesu gwybodaeth bersonol fel a ganlyn:

> “The processing is necessary for the purposes of legitimate interests pursued by the data controller or by the third party or parties to whom the data are disclosed, except where the processing is unwarranted in any particular case by reason of prejudice to the rights and freedoms or legitimate interests of the data subject.”

Mae’r amod hwn yn cynnwys prawf mewn tair rhan:

-Rhaid bod yna fudd cyhoeddus dilys mewn datgelu’r wybodaeth;
-Rhaid i’r datgeliad fod yn angenrheidiol i fodloni budd y cyhoedd; a
-Rhaid sicrhau nad yw’r datgeliad yn achosi ymyrraeth ddiangen yn hawliau, rhyddid a buddiannau cyfreithlon y person.

Ein casgliad yw na fyddai’n bosibl bodloni un o’r amodau yn Atodlen 2. Ein barn ni yw bod budd y cyhoedd wedi’i fodloni o wybod bod gan y Comisiwn bolisi, sy’n cael ei ddefnyddio a’i ddefnyddio’n effeithiol. Nid ydym yn ystyried bod datgelu union nifer y cwynion a wnaed, hunaniaeth y bobl dan sylw, na chanlyniad y cwynion yn ofynnol i fodloni budd y cyhoedd.

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan: www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF